LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Adroddiad Ymgysylltu Llais Gogledd Cymru

## Llais Lleol Sir Ddinbych

## Ionawr – Mawrth 2026



# FFORMATAU HYGYRCH

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

**Cysylltwch â ni os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall.**

**Gallwch ei lawr lwytho oddi ar ein gwefan neu ofyn am gopi drwy gysylltu â'n swyddfa.**

Ynglŷn â Llais ........................................................................................4

Cefndir .................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Yr hyn a wnaethom ..........................................................................5

Casglu profiadau..................................... **Error! Bookmark not defined.**

Yr hyn a glywsom .................................. **Error! Bookmark not defined.**

Argymhellion sylwadau ...........................................................................8

Diolch...................................................... **Error! Bookmark not defined.**

Adborth .................................................. **Error! Bookmark not defined.**

# YNGLŶN Â LLAIS

Credwn mewn Cymru iachach, lle mae pobl yn cael y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eu hangen arnynt, yn y ffordd sy'n gweithio orau iddynt.

Rydym yma i ddeall eich barn a'ch profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod eich adborth yn cael ei ddefnyddio gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i lunio eich gwasanaethau.


Rydym yn chwilio am straeon da a drwg, fel ein bod yn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda, a sut y gallai fod angen i wasanaethau wella. Ac rydym yn edrych yn benodol i siarad â'r rhai nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Rydym hefyd yn siarad â phobl am eu barn a'u profiadau, trwy gynnal digwyddiadau yn eich cymunedau lleol neu ymweld â chi lle bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb hefyd, ac yn unol â mentrau cenedlaethol, i gasglu barn pobl.

A phan fydd pethau'n mynd o chwith, rydym yn eich cynorthwyo i wneud cwynion.

Mae 7 Rhanbarth Llais yng Nghymru. Mae pob un yn cynrychioli llais "y claf a'r cyhoedd" mewn gwahanol rannau o Gymru.



# CEFNDIR

Fel rhan o’n cynllun gwaith, ymgymerodd Llais Gogledd Cymru â gwaith i ymgysylltu â dinasyddion ledled Sir Ddinbych. Gwnaethom hyn rhwng 01 Chwefror a 30 Mawrth. Byddai cynnal Llais Lleol yn Sir Ddinbych yn rhoi cyfle i ni gasglu barn a phrofiadau dinasyddion y sir o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhai ardaloedd yn Sir Ddinbych yn ddifreintiedig iawn, gyda’r Rhyl ymhlith y deg ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, fe wnaethom ymgysylltu â dinasyddion yn Sir Ddinbych, gan siarad â thua 165 o bobl am eu profiadau o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.**

Byddai dull sirol o gymorth i gymharu profiadau dinasyddion o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws gwahanol leoliadau economaidd-gymdeithasol.

Roeddem am glywed profiadau dinasyddion lleol o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a chlywed sut mae eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu diwallu / heb eu diwallu; er mwyn helpu i nodi unrhyw anghydraddoldebau mewn gwasanaethau.

# YR HYN A WNAETHOM

Aethom ati i gysylltu ag amryw o grwpiau cymunedol sydd eisoes wedi’u sefydlu yn yr ardal, i weld a allem fynychu i gasglu barn y mynychwyr am eu profiadau personol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd llawer o’r mynychwyr yn ddefnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â’n ofalwyr cyflogedig a di-dâl. Dangosir y grwpiau y gwnaethom fynychu isod.

| |
|---|
| Fforwm Pobl Hŷn Prestatyn |
| Crefft a Sgwrs Corwen |
| Fforwm Pobl Hŷn Llanelwy |
| Prif Dderbynfa Ysbyty Glan Clwyd |
| Grŵp LGBTQ+, Y Rhyl |
| Fforwm Pobl Hŷn Dinbych |
| Prif Dderbynfa Ysbyty Rhuthun |
| Fforwm Pobl Hŷn Rhuthun |
| Clwb Cinio Corwen |
| Prif Dderbynfa Ysbyty Dinbych |
| Ysbyty Brenhinol Alexandra, Y Rhyl, Derbynfa Cleifion Allanol |
| Marchnad Ffermwyr Jones Peckover, Llanelwy |

Fe wnaethom siarad â 165 o bobl i gyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu.

# CASGLU PROFIADAU

Nid oeddem eisiau i bobl lenwi llawer o flychau ticio am y pethau y gallem fod wedi ystyried eu bod yn berthnasol, yn hytrach, roeddem eisiau darganfod beth oedd pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn ei brofi yn ystod eu gofal, yn eu geiriau eu hunain.



# YR HYN A GLYWSOM

Fel gyda'n digwyddiadau Llais lleol blaenorol, clywsom gan bobl a oedd wedi cael profiadau da a drwg o gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.  Rhaid dweud bod mwyafrif yr adborth a gawsom yn ymwneud â phrofiadau pobl o ofal iechyd.  Roedd rhai pobl y siaradom â nhw'n fodlon neu'n fodlon iawn â'u gofal; roedd eraill yn llai bodlon.

Mae rhywfaint o'r adborth thematig yn gyfarwydd iawn ac yn anodd ei ddatrys yn gyflym, ond mae'n achosi llawer iawn o rwystredigaeth i gleifion wrth iddynt geisio llywio eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Dyma'r themâu sy'n codi o'r trafodaethau.

- Gall mynediad at Feddyg Teulu fod yn anodd mewn rhai meddygfeydd yn y sir.
- Mae parcio ceir yn broblem ar y 3 safle Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yng Ngogledd Cymru, nid yn unig yn Ysbyty Glan Clwyd, yr ysbyty sy'n gwasanaethu Sir Ddinbych.
- Mae angen gwell gwybodaeth ar ôl triniaeth ar gyfer cleifion sy'n mynychu apwyntiadau Offthalmoleg, e.e. eu bod yn methu gyrru ar ôl eu triniaeth.
- Mae amseroedd aros Offthalmoleg yn hir.
- Dim digon o Feddygon Teulu i wasanaethu'r ardal.
- Amseroedd aros hir yn yr Adran Achosion Brys ac oedi wrth wneud diagnosis.
- Profiad cadarnhaol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Dinbych.
- Problemau gyda PALS ddim yn cysylltu'n ôl â chleifion pan fyddant wedi codi pryder.
- Rhestr aros hir ar gyfer gwasanaethau Gastroenteroleg.
- Mae angen gwella arwyddion, mewnol ac allanol, ar safleoedd Ysbytai.
- Byddai arwydd neu boster yn egluro ystyr y gwahanol liwiau lifrau / gwisg staff yn ddefnyddiol mewn Ysbytai.
- Nid yw BIPBC yn cynnig llawdriniaethau Traws

**Cadarnhaol yn erbyn Negyddol yn ôl *Thema***

**Prif themâu CADARNHAOL**

| **Thema** | **Yr hyn sy'n gweithio'n dda** |
|---|---|
| 🧑‍⚕️ Proffesiynoldeb staff | Canmolwyd nyrsys, parafeddygon, a nyrsys ardal yn gyson |
| 🏥 Ysbytai cymunedol | Rhuthun, Dinbych, Unedau Mân Anafiadau yn cael eu hystyried yn rhai effeithlon a gofalgar |
| 🚑 Gwasanaethau ymatebol | GIG 111, gofal parafeddygon gartref, gwasanaeth mynediad mewnwythiennol (IV) |
| ❤️ Gofal tosturiol | Gwasanaethau canser, gofal strôc, urddas diwedd oes |

**Prif themâu NEGYDDOL**

| **Thema** | **Materion allweddol a godwyd** |
|---|---|
| 🕒 Amseroedd aros hir | Oedi yn yr Adran Achosion Brys, apwyntiadau wedi'u canslo, arosiadau hir am lawdriniaeth a diagnosteg |
| 🚗 Parcio | Dim digon o leoedd parcio yn Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd, Wrecsam Maelor |
| 📞 Mynediad at Feddyg Teulu | Methu cael ateb am 8yb, prinder Meddygon Teulu |
| 💻 Mynediad digidol | Allgau pobl hŷn, ofn apiau, systemau di-bapur |
| 🧭 Arwyddion gwael | Ysbytai yn anodd eu llywio |

Gellir dod o hyd i'r sylwadau a dderbyniwyd i gyd yn Atodiad 1

# ARGYMHELLION SYLWADAU

O ganlyniad i'r sylwadau a'r adborth a dderbyniwyd gennym yn ystod y Llais Lleol yn Sir Ddinbych, bydd sylwadau'n cael eu cyflwyno i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych, ynghylch rhywfaint o'r adborth a dderbyniwyd gennym.

Byddwn yn rhannu'r ymatebion a'r camau a gymerwyd ar ôl eu derbyn gyda'r grwpiau a'r dinasyddion hynny y gwnaethom ymgysylltu â nhw.

## DIOLCH

Diolch i bawb a gymerodd yr amser i rannu eu barn a'u profiadau gyda ni am eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.  Rydym yn ddiolchgar i'r gwahanol grwpiau cymunedol am ganiatáu i ni fynychu eu digwyddiadau. Hoffem ddiolch hefyd i'n gwirfoddolwyr a'n staff, a fynychodd y grwpiau cymunedol ar draws Sir Ddinbych i gasglu'r profiadau.

Rydym yn gobeithio bydd yr adborth y mae pobl wedi rhoi o'u hamser i'w rannu yn dylanwadu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, i gydnabod a gwerthfawrogi'r hyn maen nhw'n ei wneud yn dda – ac i gymryd camau lle mae angen, cyn gynted â phosib, i wella pethau.



# ADBORTH

Carem glywed beth yw eich barn am y cyhoeddiad hwn, ac unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella, fel y gallwn ddefnyddio hyn i wneud ein gwaith yn well yn y dyfodol.

## MANYLION CYSWLLT LLAIS GOGLEDD CYMRU

UNED 11 LLYS CASTAN
FFORDD Y PARC
PARC MENAI
BANGOR, LL57 4FH

FFôN: 01248 679284

UNED 1B A 1D PARC BUSNES WILKINSON
FFORDD DE CLYWEDOG
STAD DIWYDIANNOL WRECSAM
WRECSAM, LL13 9AE

FFôN: 01978 356178

EBOST: NORTHWALESENQUIRIES@LLAISCYMRU.ORG

## Atodiad 1

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| Clwb Cinio Canolfan Ni Corwen | • Mae'n gas gen i feddwl am orfod ffonio'r meddyg (Meddygfa Corwen), anhawster cael apwyntiad.<br>• Dim darpariaeth ddeintyddol y GIG yn yr ardal, Deintyddion preifat yn codi llawer o arian, rhy ddrud i'r rhai sydd ar eu pensiwn.<br>• Ofn gorfod mynd i'r ysbyty.<br>• Mae'r Ymarferydd Nyrsio ym Meddygfa Corwen yn dda iawn, yn cymryd amser gyda chleifion.<br>• Mae angen i'r Cyngor ofalu mwy am yr henoed yn y gymuned.<br>• Mae parcio ceir yn Wrecsam Maelor yn wael, mae angen iddyn nhw ystyried adeiladu maes parcio aml-lawr neu osod bariau a rhoi codau QR i agor y bariau ar lythyrau i'r rhai sydd ag apwyntiad. Mae'n llai o straen i'r rhai sy'n gorfod mynychu apwyntiadau.<br>• Mae angen i'r GIG ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd.<br>• Mae Nyrsys Ardal yn wych; Cefais ofal ardderchog ganddyn nhw yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty llynedd.<br>• Disgynais i gartref llynedd, mynychodd y Parafeddygon a gwnaethon nhw fy nhrin i gartref, gan nad oeddwn i eisiau mynd i'r ysbyty. Roedd y gwasanaeth yn dda iawn.<br>• Roedd pawb a oedd yn bresennol yn canmol Canolfan Ni yng Nghorwen. Dywedon nhw ei bod wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.<br>• Mae gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych yn wirioneddol wych – dim problemau o gwbl. Mae gofalwyr yn dod ataf 3 gwaith y dydd. Cynorthwyol iawn.<br>• Mae gŵr yn cael problemau gyda chasglu ei finiau glas, mae'r gofalwr yn mynd i gysylltu â'r Cyngor.<br>• Mae Fferyllydd Corwen yn barod iawn i helpu, gan arbed gorfod gwneud apwyntiad i weld Meddyg Teulu.<br>• Mae ceisio parcio yn Ysbyty Glan Clwyd yn ofnadwy. Rwy'n defnyddio 'Dial a Ride'. Rwy'n talu £21 y flwyddyn, ac yna gallaf ddefnyddio'r gwasanaeth gymaint o weithiau ag yr wy'n | • Mynediad at Feddyg Teulu<br>• Parcio ceir mewn ysbytai<br>• Gwybodaeth i gleifion sy'n mynychu apwyntiadau Offthalmoleg<br>• Amseroedd aros yr adran Offthalmoleg. |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | dymuno. Mae mor gyfleus pan fydd angen i mi fynd i Wrecsam Maelor, y mwyaf maen nhw'n ei godi arnoch chi yw £20, hyd yn oed os ydych chi yno drwy'r dydd.<br>• Mae'r Meddyg Teulu ym Meddygfa Cerrig yn dda iawn.<br>• Rwy'n talu £100 yr wythnos am fy ngofalwyr, sy'n galw ddwywaith y dydd. Dim ond gyda fy anghenion hylendid, cawod / bath ayb., maen nhw'n fy helpu. Nid ydyn nhw'n helpu gyda glanhau, na'n gwneud rhywbeth bach i'w fwyta i mi.<br>• Mynychwyd apwyntiad llygaid ym Mae Colwyn. Ni wnaethant sôn yn y llythyr y byddai diferion yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymgynghoriad, ac y byddent yn amharu ar y golwg am gyfnod wedyn. Bu'n rhaid i'r wraig dalu rhywun i'w hebrwng adref. Mae angen mwy o fanylion yn y llythyr apwyntiad.<br>• Mae'r staff meddygol ym Meddygfa Deulu Corwen i gyd yn dda iawn. Mae un meddyg yn wych, ac mae mor dda cael parhad wrth weld eich Meddyg.<br>• Yn llety gwarchod Llygadog ar hyn o bryd, yn dilyn ei diagnosis o ddementia yn ddiweddar. Mae'r llety'n ofnadwy ac, ar hyn o bryd, nid oes ganddyn nhw Reolwr Llety hyd yn oed.<br>• Gwraig wedi bod yn aros 2 flynedd am apwyntiad dilynol Glawcoma.<br>• Mae ganddyn nhw ddiwrnodau agored yn y Ganolfan, lle bydd pobl yn galw i gymryd eich pwysedd gwaed ayb., sydd mor ddefnyddiol.<br>• Soniodd gŵr fod Deintydd newydd y GIG yn dod i'r Ganolfan Iechyd. | |
| Crefft a Sgwrs Canolfan Ni Corwen | • Dim ond 4 awr y bu'n rhaid i mi aros am ambiwlans pan oeddwn i'n sâl, roeddwn i'n meddwl bod hynny'n dda iawn.<br>• Nid yw'r band llawes llinell gymorth newydd cystal ag yr oedd o'r blaen. Roeddwn i'n arfer gallu pwyso botwm ar fy mand llawes a siarad â rhywun trwy seinydd yn fy nghartref, ond nawr mae wedi mynd yn ddigidol, nid dyna sut mae'n gweithio. Rydw i'n fyddar ac ni allaf glywed pan maen nhw'n ffonio trwy'r seinydd yn yr ystafell arall.<br>• Cefais fy nerbyn i Ysbyty Maelor pan oeddwn i'n sâl yn ddiweddar, roedd yn dda iawn yno. Yna cefais fy nerbyn i Ysbyty Rhuthun, ac roedden nhw'n dda yno hefyd. | • Mae Canolfan Ni yn hwb pwysig i bobl gymdeithasu, cael pryd o fwyd poeth, mynd ar deithiau, a chwrdd â phobl. Dywedodd rhai y byddent yn unig hebddi.<br>• Dim digon o Feddygon Teulu i wasanaethu'r ardal.<br>• Nid yw'r gwasanaeth band llawes llinell gymorth |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Mae fy Meddyg Teulu yng Nghorwen. Os oes angen i mi weld Meddyg y diwrnod hwnnw, pan fyddaf yn ffonio am 8yb., nid ydw i byth yn medru cael ateb, ac nid ydyn nhw'n gwneud galwadau allan i'r tŷ.<br>• Dywedodd fy nheulu wrthyf fod yn rhaid i mi symud i lety â chymorth oherwydd fy nementia, ac nid wyf yn cael gyrru mwyach chwaith. Mae'n rhaid i mi fynd ar y bws i Gorwen, mae'n fy ngwneud i'n rhwystredig iawn na allaf yrru. Nid oes Swyddog Tai yn y llety, gallech chi gwympo'n farw a byddai neb yn gwybod. Rwy'n casáu bod yno.<br>• Mae dau Feddyg yng Nghorwen, ond nid ydyn nhw'n llawn amser. Nid yw'n ddigon i wasanaethu'r ardal.<br>• Rwy'n cael trafferth gyda'r Derbynyddion yn y feddygfa yng Nghorwen, ond mae'r Ymarferwyr Nyrsio yno'n dda iawn.<br>• Nid oes unrhyw gymorth Awtistiaeth ar gyfer fy merch, nid oes dim byd iddi hi (mae'r ferch yn byw yng Nghanolbarth Lloegr).<br>• Nid oes digon o Feddygon Teulu mewn gwirionedd. Meddygon Locwm sydd yng Nghorwen a Cherrigydrudion.<br>• Rwy'n adnabod rhywun sy'n 64 oed â Dementia, ac sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd hynny. Rwy'n poeni'n fawr am ei deulu, a sut y byddant yn ymdopi'n ariannol. (wedi awgrymu bod y teulu'n siarad â'r swyddfa Cyngor ar Bopeth).<br>• Roedd gan bawb yn y grŵp sylwadau cadarnhaol am Ganolfan Ni. Y lleoliad yw eu rhwydwaith cymorth, gyda'r holl grwpiau a gweithgareddau sy'n cael eu trefnu yno. Dywedodd rhai y byddent yn unig fel arall, ond eu bod yn mwynhau mynychu i gymdeithasu a chael pryd o fwyd poeth. Mae yna glwb cinio hefyd, cawl a chân, teithiau siopa, sesiynau crefftau ac amryw o deithiau. | ddigidol newydd cystal â'r un o'r blaen. |
| Ysbyty Brenhinol Alexandra, Y Rhyl | • Profiad gwael yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd, cafodd ffrind â hanes o ganser yr ysgyfaint a pheswch parhaus ei gludo yno mewn Ambiwlans. Roedd ei ystadegau'n 54%, bu oedi gyda thriniaeth ABX, a bu farw gyda sepsis y diwrnod canlynol.<br>• Profiad gwael yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd, derbyniwyd aelod o'r teulu gyda phroblemau gyda choden y bustl, a bu'n rhaid aros amser hir i weld Meddyg yn yr Adran Achosion Brys. | • Amseroedd aros hir yn Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd ac oedi cyn gwneud diagnosis. |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Symudais i'r ardal 12 mlynedd yn ôl, ac rydw i heb ddod o hyd i unrhyw achos i achwyn amdano eto. Yn derbyn gofal iechyd meddwl.<br>• Symudais i Feddygfa Bae Cinmel, nid ydyn nhw'n monitro fy nghlefyd y siwgr, ond rwy'n symud i Rhuthun cyn bo hir, ac rydw i wedi clywed bod y Meddyg Teulu yno'n dda iawn.<br>• Gwraig oedrannus wedi cwympo gartref. Aeth y teulu â hi i Ysbyty Glan Clwyd. Cyrhaeddodd am 7yh., a gadawodd am 4yb.<br>• Gwraig oedrannus wedi cwympo gartref. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Dinbych wedi bod yn flaenweithgar iawn wrth wneud addasiadau i'w chartref i'w helpu.<br>• Nid yw Porthorion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu Rheolwyr. Maent wedi gorfod aros wythnosau am wisgoedd neu esgidiau newydd. Nid ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth o ran eu lles. Maen nhw'n gorfod ymdrin â rhai sefyllfaoedd gofidus fel rhan o'u gwaith. | • Profiad cadarnhaol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Dinbych<br>• Lles staff |
| Prif Dderbynfa Ysbyty Glan Clwyd | • Mae dad yn glaf preswyl ar ôl cael strôc ac mae arno ddementia hefyd. Dylai gael gwrthfiotigau, ond methwyd rhoi un dos iddo. Mae wedi'i gofnodi ar ei nodiadau bod y gwrthfiotigau IV wedi'u rhoi, ond roeddwn i yno drwy'r amser, ac ni roddwyd y dos. Rydw i wedi cysylltu â PALS ynglŷn â hyn, ond mae 4 diwrnod wedi mynd heibio ac nid ydw i wedi clywed yn ôl ganddynt.<br>• Mae'r gwasanaeth Gastro wedi dirywio'n ofnadwy; mae'r rhestrau aros yn rhy hir o lawer. Rydw i nawr yn cael fy anfon i Ysbyty Iarlles Caer i gael fy ngweld.<br>• Rydw i wedi aros dwy flynedd am fy nhriniaeth; Rydw i bellach yn dibynnu ar ddefnyddio ffon gerdded – nid oedd angen ffon arna'i o'r blaen. *(Rhoddwyd deunydd darllen Llais a thaflen Eiriolaeth, mae'n bosib y bydd y claf yn cysylltu)*<br>○ IVAS – gwasanaeth newydd sydd ar gael yn Ysbyty Glan Clwyd yn unig, gan nad oes arian ar gael ar hyn o bryd i gynnig y gwasanaeth yn y Gorllewin a'r Dwyrain. Eu gwasanaeth: pan fydd cleifion yn gadael yr ysbyty, mae staff IVAS yn rhoi caniwla i mewn, fel y gall y claf fynd adref a chael ei IV mewn ysbyty cymunedol, fel Ysbyty Dinbych. Mae hyn yn atal yr angen i gleifion aros yn yr ysbyty, os ydynt yn barod i ddychwelyd adref ac yn medru gwneud hynny. | • Problemau gyda PALS ddim yn cysylltu'n ôl â chleifion.<br>• Dim digon o leoedd parcio ceir.<br>• Problemau gyda'r gwasanaeth Gastro - rhestrau aros hir.<br>• Angen gwella arwyddion, yn enwedig ger y lifft – nid oedd cleifion yn siŵr ble i fynd. Byddai arwydd 'Rydych chi yma' yn ddefnyddiol.<br>• Byddai arwydd neu boster yn egluro ystyr y gwahanol liwiau y lifrau / gwisg staff yn ddefnyddiol. |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Mae problemau gyda PALS. Pan fydd cleifion yn cysylltu â nhw o'r ward, oherwydd profiadau gwael cyn cyrraedd yr ysbyty, nid yw'n ymddangos bod PALS yn cysylltu'n ôl â nhw.<br>• Mae diffyg lleoedd parcio ceir yn yr ysbyty.<br>• Siaradais i â Swyddog o'r gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr, sydd wedi'i leoli yn yr ysbyty, ac sydd hefyd yn ymweld ag ysbytai cymunedol i gefnogi cleifion a gofalwyr. *Rhannwyd deunydd darllen Llais gyda nhw.*<br>• Mae staff eisiau rhannu profiadau gyda Llais, ond maen nhw'n poeni am rannu'r profiadau hynny.<br>• Rhoddwyd peli straen Llais i rai o staff yr adran Ffisiotherapi. Dywedon nhw y byddai eu cleifion yn eu cael yn ddefnyddiol yn ystod eu triniaeth ffisiotherapi.<br>• Mae angen gwirfoddolwyr ger ardal y lifft, i gyfeirio neu dywys cleifion i ble mae angen iddyn nhw fynd (mae gwirfoddolwyr yn gwneud hyn yn ysbytai Lerpwl a Manceinion). Nid yw'r cyfarwyddiadau a'r arwyddion yn ddigon da; nid oedd pobl yn siŵr ble oedd angen iddyn nhw fynd. Byddai map 'Rydych chi yma' ar y wal yn ddefnyddiol.<br>• Byddai blwch awgrymiadau yn ddefnyddiol yn yr ysbyty i gleifion, ymwelwyr a staff gynnig adborth ac awgrymiadau.<br>• Byddai arwydd ar y wal yn dangos ystyr lliwiau gwahanol lifrau / gwisgoedd staff yn ddefnyddiol. | |
| Fforwm Pobl Hŷn Sir Ddinbych – Prestatyn | • Dim ond dau Feddyg rhan amser sydd yn fy meddygfa ym Mhrestatyn, ac mae'n amhosib cael apwyntiad yno. Llosgais i fy mys yn eithaf drwg yn ddiweddar, a phan ffoniais i'r feddygfa, dywedon nhw nad oedd apwyntiad ar gael am 6 wythnos.<br>• Rydw i wedi cael gwasanaeth gwych yn y feddygfa yn Ninbych – dim problem cael apwyntiad.<br>• Nid ydw i'n cael unrhyw broblem cael apwyntiad yn y feddygfa yn Abergele.<br>• Mae problemau ym Meddygfa Tŷ Nant, Prestatyn – mae'n ofnadwy yno. | • Mynediad at Feddyg Teulu<br>• Ariannu gofal cymdeithasol<br>• Mae angen gwella'r arwyddion ym maes parcio Ysbyty Gwynedd |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Pam mae gwahaniaethau yn argaeledd Meddygon Teulu ar draws y sir – os yw'n dda yn Abergele a Dinbych, pam na all fod yn dda ym Mhrestatyn hefyd?<br>• Cwympodd ffrind sy'n eithaf oedrannus rhai wythnosau'n ôl, roedd hi ar y llawr gyda briw ar ei phen. Ni allai'r Ambiwlans ei chyrraedd nes y bore canlynol, felly bu ar y llawr drwy'r nos.<br>• Dylech chi (Llais) siarad â James Davies – roedd e'n arfer bod yn Wleidydd ym Mhrestatyn, ac roedd e'n arfer bod yn Feddyg – rwy'n siŵr y gallai ddweud wrthych beth yw'r problemau yma.<br>• Os oes angen Gofalwr arnoch chi ar ôl dod adref o'r ysbyty, rydych chi'n cael 6 wythnos am ddim, ac yna mae'n rhaid i chi dalu.<br>• Yn ddiweddar, fe wnes i gynnal 'Asesiad Anghenion' ar gyfer fy mam, sydd bellach wedi gorfod symud i gartref nyrsio. Roeddwn i eisiau gwybod pa gymorth ariannol y gallem ei gael i helpu i dalu am ei gofal. Mae tri mis wedi mynd heibio ers i mi wneud yr asesiad, ac rwy'n dal i aros i glywed gan wasanaethau cymdeithasol y Cyngor. Yn y cyfamser, mae fy mam yn talu am ei gofal, ond rwy'n siŵr ei bod hi'n gymwys i gael rhywfaint o gymorth ariannol.<br>• Mae arian ar gyfer cartrefi gofal / nyrsio yn bryder – nid yw pobl yn gwybod pa gymorth sydd ar gael i'w helpu gyda'r costau.<br>• Roedd gan fy ngwraig boen yn ei stumog a barodd am ddau ddiwrnod, lle na allai godi o'r gwely. Ffoniais i 111 ac roedden nhw'n wych. Es i â hi i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd (mae'n well gen i Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Glan Clwyd), cyrhaeddon ni am 2yh ar y dydd Gwener, ac roedden ni'n dal i eistedd yn ystafell aros yr Adran Achosion Brys am 2yb ar y dydd Sadwrn. Tra roedden ni yno, buon ni'n siarad â chlaf o Abermo, gwraig oedrannus a oedd wedi ffonio ei Meddyg Teulu, a dywedwyd wrthi fod angen iddi fynd i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd. Doedd hi ddim yn medru gyrru, felly talodd am dacsi i'w chludo i Ysbyty Gwynedd o Abermaw, a byddai angen iddi dalu am dacsi adref eto.<br>• Nid ydw i'n gweld bai ar y staff; y system sydd ar fai. Mae gormod o staff rheoli. Lle rwy'n gweithio (sector preifat), un Rheolwr sydd, ac mae'r gweddill i gyd yn staff – maen nhw | |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | wedi cael gwared ar y Rheolwyr Canol i gyd, ac maen nhw'n gwneud elw enfawr i'r cwmni. Mae angen i'r GIG ddysgu gan y sector preifat am ba staff rheoli sydd eu hangen / neu sydd ddim eu hangen arnyn nhw mewn gwirionedd.<br>• Mae Betsi Cadwaladr yn llawer rhy fawr, ac mae gwir angen iddyn nhw agor yr ysbytai bwthyn hynny – doedd dim angen eu cau. Dyma pam mae pobl yn aros yn ystafelloedd aros yr Adrannau Achosion Brys. Pe byddai gennym ysbytai bwthyn, byddai pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynt i ysbytai bwthyn i wella, a byddai amseroedd aros yn llai yn ardaloedd aros yr Adrannau Achosion Brys.<br>• Mae gwasanaethau Orthopedig yn cael eu symud o Abergele i Landudno, beth fydd yn digwydd i'r gwelyau yn Ysbyty Llandudno? A beth yw'r cynlluniau ar gyfer y gwelyau (a oedd ar gyfer cleifion Orthopedig) yn Abergele?<br>• Nid yw E-consult ar gael ym mhobman, ac nid yw pawb eisiau defnyddio apiau. Mae pobl yn ofni ffonau symudol ac apiau; rhag ofn iddynt gael eu twyllo.<br>• Gall y gwasanaeth Dial-a-ride gludo pobl i'w hapwyntiadau am ffi fach; maen nhw'n dda.<br>• Nid yw'r arwyddion yn dda iawn ym maes parcio Ysbyty Gwynedd, yn enwedig pan fyddwch chi'n parcio yn y maes parcio pellaf, mae'n anodd llywio'ch ffordd i ble mae angen i chi fynd yn yr ysbyty.<br>• Beth ddigwyddodd i wasanaeth Parcio a Theithio Ysbyty Glan Clwyd, roedd e'n wych. Pam na allant adeiladu meysydd parcio aml-lawr yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd? Mae parcio yn broblem ar y ddau safle.<br>• Uned Mân Anafiadau Treffynnon yw'r un agosaf at Brestatyn, mae'n wych. Cefais fy anfon yno am belydr-x, a chefais sylw'n gyflym iawn. | |
| Stondin Gwybodaeth Ysbyty Rhuthun | • Clinig Llygaid – cyfleus iawn, byth yn gorfod aros, prydlon iawn. Digon o le i barcio yn yr ysbyty. Cymaint yn well nag Ysbyty Glan Clwyd.<br>• Mae'r Deintydd yn Rhuthun yn dda iawn, ond mae'n ddrud. Dim ond 2 archwiliad a 2 ymweliad hylendid mae'r cynllun yn eu cynnwys.<br>• Mynychais i Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd. Roeddwn i yno drwy'r nos, oriau ar gadair galed. A hyn i gyd yn ofer, oherwydd cefais fy anfon adref yn y bore. Profiad torcalonnus. | • Meddygfeydd lleol yn gweithio'n dda<br>• Oedi yn Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd<br>• Problemau parcio, problemau mawr yn Ysbyty Glan Clwyd |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Y peth gwaethaf wnaethon nhw oedd cael gwared ar yr ysbytai bwthyn.<br>• Mae staff y Clinig Llygaid yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn bob amser.<br>• Mae'r Deintydd yn Ninbych yn dda iawn ac mae tua £10 yn rhatach na Rhuthun.<br>• Mae parcio yn Ysbyty Glan Clwyd yn ofnadwy, rhaid mynd awr yn gynharach dim ond er mwyn gwneud yn siŵr nad ydw i'n hwyr i fy apwyntiad.<br>• Rhaid i mi gytuno bod parcio yn gwbl warthus yn Ysbyty Glan Clwyd. Roeddwn i'n hwyr i fy apwyntiad. Roeddwn i'n teimlo'n ofnadwy.<br>• Mae'r Adran Ffisiotherapi yn Ysbyty Rhuthun yn gyfleus iawn, a does dim rhaid aros yn hir.<br>• Mae Meddygfa Lôn Ganol yn Ninbych yn wych.<br>• Mae Meddygfa wedi'i lleoli yn yr ysbyty, dim problem o gwbl. Rydych chi'n ffonio ac yn cael eich gweld yn brydlon.<br>• Ysbyty Rhuthun, mae mwy o glinigau'n dod. Mae'n hwb gwych i'r gymuned.<br>• Mae parcio yn Ysbyty Glan Clwyd yn ofnadwy.<br>• Mae llygod mawr yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae hyn yn syfrdanol. Mae angen i BIPBC fynd i'r afael â hyn, ni ddylai pethau fod fel hyn.<br>• Mae fy Neintydd GIG yn Y Rhyl wedi mynd yn breifat. Ffoniais i newid dyddiad ei hapwyntiad a chefais fy holi pam ei bod hi eisiau canslo sawl gwaith, dim ond eisiau newid dyddiad oeddwn i!<br>• Arwyddion gwael yn yr ysbyty, gan ei gwneud hi'n anodd i gleifion ddod o hyd i glinigau, toiledau ac ati.<br>• Meddygfa Plas Meddyg, alla'i ddim achwyn, da iawn. | • Ysbyty Rhuthun, canmoliaeth gref i'r clinigau a'r staff<br>• Deintyddiaeth, Gofal da ond drud<br>• Llygod mawr yn Ysbyty Glan Clwyd |
| Stondin Gwybodaeth Ysbyty Dinbych | • Cleifion allanol Orthopedig Glan Clwyd – Amser aros hir iawn am yr apwyntiad cyntaf ac yn dal i aros 24 mis ers yr ymgynghoriad cychwynnol. Mae'r apwyntiad wedi'i ganslo a'i aildrefnu, ond heb driniaeth o hyd. Rwy'n poeni am yr amser aros, gan fod y sefyllfa'n gwaethygu, a fydd y driniaeth yn newid. Codwyd fy ngobeithion am apwyntiad, ond fe'u chwalwyd a chefais fy siomi – rydw i mewn poen ofnadwy bob dydd.<br>• Ymwelais i â'r Nyrs yn y Feddygfa i wirio fy mhwysedd gwaed. Roedd y gwasanaeth yn dda iawn, yn gyflym, yn effeithlon, yn gyfeillgar ac yn gwrtais. | • Amser aros hir iawn ar gyfer gwasanaethau Orthopedig yng Nglan Clwyd<br>• Gwerthfawrogi gallu rhoi adborth yn y Gymraeg |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Cefnogaeth lawn i'r GIG sydd dan bwysau enfawr.<br>• Ysbyty Glan Clwyd – Apwyntiad diweddar yn effeithlon iawn ac roedd yr apwyntiadau ar amser. Esboniodd y Meddyg Ymgynghorol bopeth i mi. Ar y cyfan, cefais fy nhrin yn dda iawn gan y Nyrsys, y Meddygon a'r Derbynyddion i gyd.<br>• Ymweliad â Chlinig Wlserau yn Ysbyty Cymunedol Dinbych, gwasanaeth ardderchog. Rydyn ni'n ffodus iawn i gael Ysbyty Cymunedol Dinbych ar gyfer y mathau hyn o glinigau.<br>• Mae'r Nyrsys Ardal yn Ninbych yn wych.<br>• Does gen i ddim gair o feirniadaeth i staff Ysbyty Cymunedol Dinbych. Maen nhw'n dda iawn. Dylai'r GIG fod yn falch iawn o'r gwasanaeth y mae staff Dinbych yn ei roi i gleifion.<br>• Mae parcio yn Ysbyty Glan Clwyd yn erchyll.<br>• Hapus iawn hefo'r 'system' gyfan. Pob dim yn wych. Cael fy ngweld yn gyflym. Wedi cael atebion parod i'r profion. Braf cael rhoi sylwadau yn y Gymraeg. | • Ysbyty Cymunedol Dinbych: staff a chlinigau'n cael eu canmol yn fawr<br>• Cefnogaeth gref i'r GIG er gwaethaf y pwysau<br>• Parcio yn Ysbyty Glan Clwyd |
| Marchnad Ffermwyr Llanelwy | Nid dyma'r lle gorau i siarad â phobl am eu profiadau o'r GIG / Gofal Cymdeithasol, gan fod y ffermwyr yn brysur gyda'u hanifeiliaid, ac yn bidio am dda byw. Roedden nhw yno ar fusnes ac nid oedd ganddyn nhw amser i siarad â ni.<br>Fodd bynnag, fe wnaethon ni achub ar y cyfle i hyrwyddo Llais, trwy siarad â staff marchnad Jones Peckover. Gofynnodd rhai ffermwyr beth oedd Llais, a chwpl a oedd yno'n codi arian ar gyfer elusen er cof am eu merch - NRAS. Fe wnaethon ni osod posteri a thaflenni ar hysbysfwrdd y caffi hefyd, ac fe wnaethon ni adael rhai taflenni ar y byrddau yn y caffi, ac wrth brif dderbynfa'r farchnad, lle mae ffermwyr yn cofrestru wrth gyrraedd. | |
| Fforwm Pobl Hŷn Sir Ddinbych – Dinbych | • Roedd trigolion yn teimlo fod diffyg gwybodaeth glir, hygyrch, am yr hyn y mae pob Ysbyty yn yr ardal yn ei ddarparu. Dywedodd llawer eu bod yn cael trafferth deall pa wasanaethau sydd ar gael ble, a bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd gwneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.<br>• Thema a gododd dro ar ôl tro oedd rhwystredigaeth gyda pha mor hir y mae'n ei gymryd i wasanaethau ddechrau ar ôl iddynt gael eu ceisio. Disgrifiodd nifer o drigolion brosesau fel rhai araf, dryslyd, a chymhleth yn ddiangen. Crybwyllwyd systemau fel ymgeisio am y Bathodyn Glas yn benodol, fel enghreifftiau o ba mor anodd y gall fod i gael mynediad at gymorth a ddylai fod yn syml ac yn uniongyrchol. | • Gwell cyfathrebu a thryloywder gan ysbytai<br>• Darpariaeth gwasanaeth cyflymach a mwy ymatebol<br>• Cymorth dibynadwy a thosturiol ar gyfer materion pensiwn a budd-daliadau |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Rhannodd un trigolyn brofiad arbennig o ofidus, lle cafodd ei phensiwn ei atal heb rybudd nac esboniad. Er iddi ddilyn pob llwybr swyddogol i ddatrys y mater, cafodd ei gadael heb incwm a'i gorfodi i ddefnyddio ei chynilon personol i dalu am ei llety gwarchod.<br>• Cydnabu trigolion y gall systemau ar-lein ar gyfer Meddygfeydd – megis archebu presgripsiynau amlroddadwy – fod yn effeithlon. Fodd bynnag, fe wnaethant godi pryderon difrifol am bobl hŷn na allant ddefnyddio offer digidol. Cwestiynodd llawer pa drefniadau amgen sydd ar waith i'r rhai nad ydynt yn hyderus gyda thechnoleg, ac a yw'r dewisiadau amgen hyn yn cael eu cynnal yn iawn neu'u dileu'n raddol.<br>• Codwyd mater ymarferol ynghylch lleoliad blwch post ar ddiwedd y dreif sy'n gwasanaethu fflatiau trigolion. Mae'r lleoliad hwn yn creu anawsterau i'r rhai sydd â phroblemau symudedd. Mae'r mater yn cael ei drafod gyda'r Cyngor ar hyn o bryd, gan fod trigolion yn teimlo ei fod yn effeithio'n uniongyrchol ar eu hannibyniaeth a'u diogelwch.<br>• Nododd trigolion fod Dinbych yn elwa o gael sawl practis Meddyg Teulu, sy'n golygu bod apwyntiadau'n haws i'w cael yn gyffredinol. Roedd hyn yn cyferbynnu â'r sefyllfa yn y dref nesaf, tua phum milltir i ffwrdd, lle mai dim ond un Feddygfa sy'n gwasanaethu'r ardal gyfan. Disgrifiodd trigolion yr "hunllef" o geisio cael apwyntiad yno, gan amlygu sut y gall mynediad at ofal sylfaenol amrywio'n ddramatig rhwng cymunedau cyfagos.<br>• Roedd pryder mawr ynghylch cyflwr presennol Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Dywedodd trigolion bod amseroedd aros "dychrynllyd" wedi mynd mor hir fel bod pobl yn marw mewn coridorau, weithiau ar eu pen eu hunain. Gwelwyd hyn fel arwydd o system dan straen difrifol, ac yn methu â chyrraedd safonau sylfaenol o ran urddas a gofal.<br>• Mynegodd un trigolyn deimlad a oedd yn atseinio'n gryf gyda'r grŵp:<br>• "Pan fyddwch chi'n cyrraedd fy oedran i, rydych chi'n teimlo'n anweledig."<br>• Cipiodd y sylw hwn deimlad ehangach bod pobl hŷn yn cael eu hanwybyddu o fewn gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus, ac nad yw eu hanghenion yn cael eu blaenoriaethu na'u deall. | • Dewisiadau amgen nad ydynt yn ddigidol ar gyfer gwasanaethau MT hanfodol<br>• Seilwaith lleol gwell sy'n cefnogi symudedd ac annibyniaeth<br>• Amseroedd aros llai mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a mwy o urddas i gleifion<br>• Mwy o gydnabyddiaeth o brofiadau ac anghenion trigolion hŷn<br>• Yn gyffredinol, mae trigolion yn ceisio dull mwy hygyrch, parchus a chyd-gysylltiedig o ran gwasanaethau cyhoeddus - un sy'n eu cefnogi, nid yn unig yn ymarferol, ond yn emosiynol hefyd. |


| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| Grŵp LGBTQIA + Y Rhyl | • Mynychais i Ysbyty Glan Clwyd am 4 diwrnod oherwydd problemau Wroleg. Roedd y gofal a'r bwyd a gefais yn dda. Roedd y parcio'n ofnadwy, doedd dim modd cael lle.<br>• Cafodd gŵr strôc 8 wythnos yn ôl, oherwydd rhwystr yn y gwddf. Mae ef newydd ddod allan o Ysbyty Glan Clwyd. Roedd y driniaeth a'r gofal a gafodd gan y staff i gyd yn dda iawn. Roedd y bwyd yn dda iawn, ac roedd y staff bob amser yn gofyn a oedd unrhyw un eisiau mwy os oedd bwyd yn sbâr ar y troli.<br>• Mae'r Fferyllfa'n rhoi'r brand anghywir o feddyginiaeth epilepsi dro ar ôl tro. Mae aelod o'r teulu'n sensitif, a dim ond un brand y gall ei oddef. Os yw'n cymryd y brand anghywir, mae'n cael ffit. Mae wedi'i nodi ar ffeil y Meddyg Teulu, ond mae'n dal i ddigwydd.<br>• Mae'r Fferyllydd ym Modelwyddan, Dennis yn seren, mae'n cymryd ei amser gyda chi a gall ddod o hyd i feddyginiaeth y mae Fferyllwyr eraill yn amharod i'w chael.<br>• Mae prinder aspirin wedi bod mewn Fferyllfeydd lleol, ond rydw i wedi darganfod ers hynny eu bod yn cadw stoc dan y cownter i bobl mewn angen.<br>• Mae cael y brechlyn ffliw yn y Fferyllfa yn wych, profiad da iawn.<br>• Mae Meddyg Teulu newydd ym Meddygfa Tŷ Madryn, ac mae'n amharod iawn i roi gwrthfiotigau.<br>• Mae BIPBC wedi rhoi'r gorau i ariannu Grwpiau Mind. Rwy'n ystyried hyn yn gam yn ôl, gan fod y grwpiau hyn yn achubiaeth i bobl. Roedd arfer bod grwpiau cerdded ac ati. Gall mynychu'r grwpiau hyn fod yn well nag unrhyw bresgripsiwn gan eich Meddyg.<br>• Nid yw'r Feddygfa'n gwneud profion gwaed, rhaid i chi fynychu Ysbyty Rhuthun am y gwasanaeth hwnnw, a gall fod yn rhaid aros 3 wythnos.<br>• Gofal gwael i bobl Draws, oherwydd diffyg gwybodaeth ddifrifol.<br>• Dylai hyfforddiant Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) fod yn orfodol bob blwyddyn i staff ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd perthynol i'r gwaith drwy gydol eu gyrfa.<br>• Mae BIPBC wedi cael problem gyda'u Presgripsiynwyr Arbenigol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae 2 o'r 3 Presgripsiynwr Arbenigol yn ardal Betsi wedi bod i ffwrdd ar absenoldeb salwch. Pan fydd pobl allweddol i ffwrdd o'r gwaith, mae hyn yn achosi ôl-groniad. Yn sicr, dylai fod gan Betsi gynllun wrth gefn, neu fe ddylai ddiweddaru'r ffordd | • Nid yw Betsi yn cynnig llawdriniaethau Traws<br>• Meddyginiaeth i bobl Draws<br>• Problemau gyda Meddygfa<br>• Triniaeth a gofal da yn Ysbyty Glan Clwyd<br>• Diffyg gweithwyr gofal iechyd arbenigol yn BIPBC |


| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | maen nhw'n gweithio fan lleiaf. Mae'n achosi llawer o straen ac yn rhoi pwysau ar y staff sydd ar ôl.<br>• Mae Canolfan Ganser Ysbyty Glan Clwyd yn ardderchog. Rydw i wedi bod yn cael triniaeth yno. Mae'r staff i gyd yn garedig ac yn gefnogol iawn. Nid oedd unrhyw agwedd negyddol tuag ataf fel menyw draws. Oherwydd fy nghryndod, nid ydw i'n gallu bwyta cawl, nid oedd hyn yn broblem, ac fe helpodd un o'r tîm fi i fwyta a chymerodd ei amser gyda mi.<br>• Mynychais i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar, ac roedd ganddyn nhw wirfoddolwyr a aeth o gwmpas yn cynnig bwyd a diod i bobl. Roedden nhw'n siarad â phobl ac yn eu helpu, maen nhw'n arwyr tawel go iawn.<br>• Rhestr aros hir am lawdriniaeth Hernia. Mae hyn yn effeithio arnyn nhw'n feddyliol ac yn gorfforol.<br>• HRT penodol ar gyfer menywod traws. Ni gynigiodd y Meddyg Teulu unrhyw ddewis arall pan oedd prinder, y cyngor a gafwyd oedd defnyddio'r hyn sydd gennych chi bob yn ail ddiwrnod! Gwarthus. Mae gan Feddygon Teulu restr lawn o feddyginiaethau amgen, pam nad ydyn nhw'n ei defnyddio?<br>• Mae'r Llawfeddyg yn Ysbyty Spire Yale yn Wrecsam yn anhygoel. Gwnaeth lawdriniaeth arnaf wrth i mi drawsnewid o wryw i fenyw. Mor hapus gyda'r canlyniadau. Pe na bawn i wedi cael y llawdriniaeth yn Wrecsam, byddwn i wedi gorfod mynd i Brighton neu i Lundain.<br>• Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl yn ddychrynllyd yn ardal Betsi. Yn methu cael gweld Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol, gorfod aros blynyddoedd am adolygiadau meddyginiaeth.<br>• Gwneir llawdriniaethau trawsnewid o fenyw i wryw yn Kingston upon Thames. Pam na ellir cynnig hyn yn nes adref.<br>• Meddygfa Prestatyn Iach. Wedi bod yn aros am ganlyniadau profion ers blynyddoedd, mae'r gofal dilynol yn wael. Wedi bod yn poeni beth oedd yn bod arnaf, a bellach rydw wedi cael diagnosis o ddiaffram uchel. | |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Mae mor dda gweld archwiliadau'n cael eu cynnal yn y gymuned. Y tîm strôc yn ymweld â grwpiau, yn gwirio pwysedd gwaed ac ati. Rydw i wedi clywed bod y tîm clefyd y siwgr yn gwneud yr un math o beth hefyd.<br>• Yn gyffredinol, ystyrir bod Clinig Iechyd Rhywiol Y Rhyl yn darparu gwasanaeth da. Fodd bynnag, adroddodd un claf am brofiad negyddol yn ystod archwiliad iechyd diweddar. Teimlai, ar ôl egluro ei sefyllfa bersonol i'r Nyrs, yr edrychwyd arni mewn modd beirniadol a gwnaed iddi deimlo'n anghyfforddus. Mae'r Clinig Menywod yn Lerpwl yn anhygoel, nid yw'r staff yn barnu ac maen nhw'n gefnogol iawn. | |
| Fforwm Pobl Hŷn Sir Ddinbych – Rhuthun | • Pryderon ynghylch amseroedd aros ar gyfer archwiliadau fasgwlaidd, clinig cof, a dermatoleg. Diffyg cyfathrebu gan y gwasanaethau.<br>• Anawsterau gyda chludiant i gyrraedd apwyntiadau ysbyty. Mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael – 2 fws i gyrraedd Ysbyty Glan Clwyd. Tacsis = £70 ar gyfer taith ddychwelyd i Ysbyty Glan Clwyd. Mae gwasanaeth cludiant y Groes Goch wedi dod i ben. Nid oes Cludiant Cymunedol Gwirfoddol ar gael mwyach – mae mentrau'n aml yn gwasanaethu Gogledd Sir Ddinbych a De Sir Ddinbych, ond mae canol Sir Ddinbych yn cael ei hepgor. Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cludiant ambiwlans yn gyfyngedig iawn. Mae cludiant ambiwlans yn aml yn cael ei lenwi i'r eithaf, neu mae'r gwasanaeth yn cael ei ganslo. Roedd cefnogaeth gref hefyd i ailgyflwyno'r gwasanaeth Parcio a Theithio.<br>• Dywedodd un aelod ei fod wedi cael gwasanaeth gwych gan Ysbyty Glan Clwyd, ond soniodd hefyd am bryderon am glaf a gafodd ei ryddhau â Sepsis ym mis Rhagfyr 2025.<br>• Codwyd pryderon ynghylch Parafeddygon na wnaeth gynorthwyo claf i symud i'r toiled. Ni allai'r claf gerdded heb gymorth, a bu'n rhaid i'w bartner ymdrechu i'w helpu heb unrhyw gymorth gan y Parafeddygon.<br>• Roedd yr aelodau'n cytuno'n gyffredinol, gydag amseroedd aros ac anawsterau gyda chludiant, y gall fod yn frwydr i gyrraedd yr ysbyty ond, unwaith y cânt eu gweld, bod y gofal yn dda ar y cyfan. Pwysleisiwyd nad y staff yw'r broblem, ond bod diffyg trefnu ac ystyriaeth o anghenion cyfannol y claf. Gwnaed sylw nad yw pob problem yn feddygol.<br>• Gwnaed sylwadau am brinder staff, a'i bod yn ymddangos bod diffyg staff. | • Amseroedd aros am apwyntiadau gofal eilaidd.<br>• Cludiant i'r ysbyty a pharcio.<br>• Prinder Gofalwyr ar ddyletswydd yn Llys Awelon. |


| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | • Gwnaeth yr aelodau sylwadau bod BIPBC wedi cau llawer o ysbytai cymunedol ond, wrth edrych yn ôl, roedden nhw angen y gwelyau.<br>• Cyfeiriodd un aelod at broffesiynoldeb staff, a soniodd am apwyntiad lle aeth i gael sgan arennau, a gofynnodd y staff iddo a oedd yn gwybod geiriau “I’m a Little Teapot” – teimlai’r claf fod hyn yn amhroffesiynol iawn.<br>• Gwnaeth yr aelodau sylwadau bod mynediad at wasanaethau Deintyddol yn wael iawn neu ddim yn bodoli o gwbl.<br>• Dywedon nhw ei bod hi’n anodd cysylltu â’r Meddyg Teulu (Plas Meddyg) ar y ffôn, ond eu bod nhw’n barod i ddod allan ar ymweliadau cartref, pan fo angen. Dywedon nhw fod y Nyrsys Ardal yn wych.<br>• Roedd rhai aelodau’n teimlo bod gormod o bwysau’n cael ei roi ar Fferyllwyr gyda phethau fel y cynllun anhwylderau cyffredin.<br>• Codwyd mater ynghylch Meddygfa lle mae presgripsiynau amlroddadwy yn cael eu rhoi hyd yn oed os nad yw’r claf yn defnyddio’r feddyginiaeth, a bod yn rhaid iddyn nhw ddychwelyd meddyginiaethau nas defnyddiwyd i’r Fferyllfa dro ar ôl tro. Hefyd, nad yw’r Meddyg Teulu yn dilyn y cyfarwyddiadau pan fydd yr ysbyty yn diweddaru meddyginiaethau.<br>• Dywedodd un aelod mai’r materion sy’n cael eu codi yw’r un materion ag sydd wedi cael eu codi ers blynyddoedd, ac nad oes dim wedi newid.<br>• Codwyd materion hefyd a oedd yn berthynol i’r ddarpariaeth gofal a Llys Awelon. Roedd sawl aelod yn teimlo nad oes digon o Ofalwyr ar ddyletswydd – yn enwedig dros nos, pan mai dim ond 1 Gofalwr sydd ar y safle i gefnogi 57+ o drigolion. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith, os bydd rhywun yn cwympo, bod angen mwy nag un aelod o staff arnynt i’w helpu i godi. Dywedon nhw hefyd na fydd Gofalwyr yn ceisio helpu rhywun i godi os bydd wedi cwympo, yn lle hynny byddant yn aros i griw’r Ambiwlans ddod i helpu. Weithiau, mae’n rhaid i drigolion aros amser hir iawn i unrhyw un ddod i helpu. Rhoddodd un aelod enghraifft lle bu’n rhaid i rywun aros ar y llawr am 7 awr cyn i unrhyw un ddod i helpu. Gwnaed sylw hefyd nad yw pob Gofalwr yn gymwys i ddosbarthu meddyginiaethau, yn | |

| Lleoliad | Yr hyn a glywsom | Themâu |
|---|---|---|
| | enwedig y rhai sydd ar ddyletswydd dros nos. Dywedwyd eu bod wedi cael gwybod y gallai'r cartref gyflogi mwy o Ofalwyr, ond y byddai hynny'n arwain at gynyddu'r ffioedd.<br>• Gwnaed sylwadau hefyd bod eu Pecyn Gofal weithiau'n neilltuo Gofalwr iddynt am 45 munud, ond efallai mai dim ond am lai na 10 munud y bydd y Gofalwr yn aros.<br>• Trafododd y grŵp hefyd eu bod yn teimlo y dylai Diffibriliwr fod ar gael ar y safle. Eglurwyd bod y rhain fel arfer yn cael eu hariannu gan grwpiau cymunedol, ac nad ydynt yn cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd.<br>• Roedd yn ymddangos fod pryderon ynghylch lefel y gofal a ddarperir a, phan maent wedi ceisio trafod hyn gyda Rheolwr y cartref, pwysleisiwyd bod Llys Awelon yn gyfleuster "byw'n annibynnol".<br>• Dywedodd yr aelodau y byddent yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod eu pryderon gyda Sion, sy'n ymddangos ei fod yn Ofalwr neu'n Rheolwr sy'n cael ei gyflogi gan yr Awdurdod Lleol – er ei bod yn anodd cael eglurder ynghylch pwy ydyw a beth yn union yw ei rôl. Dywedodd yr aelodau mai Sion sy'n "Gyfrifol am y Gofalwyr", ond nad oeddent yn gwybod ei gyfenw. | |


Adborth Ch4 Llais Lleol – Meysydd Gwasanaeth (Cadarnhaol vs Negyddol)
Negyddol
Cadarnhaol
Nifer yr eitemau adborth
15
10
5
0
Ymarfer Cyffredinol
Ystadau
Gwasanaethau Cymdeithasol
Fferyllfa
Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST)
Ysbyty Cymunedol
Gofal Cymunedol
Ysbyty Glan Clwyd ED
Deintyddol
Llawfeddygaeth Gyffredinol
Maes Gwasanaeth


Prif Themâu – Cadarnhaol yn erbyn Negyddol
Negyddol
Cadarnhaol
Nifer yr eitemau adborth
10
8
6
4
2
0
Sylw cadarnhaol cyffredinol
Parcio ceir
Fferyllfa
Anodd cael apwyntiadau
Amseroedd aros
Staffio
Nyrsio ardal
Deintyddiaeth
Thema

# Themâu Adborth Cadarnhaol



# Themâu Adborth Negyddol

